Crynodeb Gweithredol

Yn ystod canol y 1990au ac yn hwyr yn y degawd, roedd tlodi plant yn uwch yn y DU nag ym mhob gwlad ddiwydiannol arall bron. Dros gyfnod o ugain mlynedd, roedd cyfran y plant o gartrefi cymharol isel eu hincwm wedi mwy na dyblu. Roedd un o bob pum teulu heb neb yn gweithio ynddo, ac roedd un o bob tri phlentyn yn byw mewn tlodi.

Ym mis Mawrth 1999, ymatebodd y Prif Weinidog i hyn trwy addo dileu tlodi plant o fewn cenhedlaeth. Tanategwyd yr addewid hwn gan dargedau uchelgeisiol – lleihau tlodi plant o chwarter erbyn 2004/05, o hanner erbyn 2010/11 a'i ddileu erbyn 2020. Er i'r Llywodraeth fethu targed 2004/05 o drwch blewyn, gwnaed cynnydd sylweddol. Llwyddasom hefyd i atal a gwrthdroi tueddiad hirdymor tlodi plant cynyddol: erbyn hyn, mae 600,000 yn llai o blant sy'n byw mewn tlodi cymharol nag ym1998/99. Yn hytrach na bod â'r gyfradd tlodi plant gwaethaf yn Ewrop, mae'r DU yn agos at y cyfartaledd Ewropeaidd erbyn hyn. Ond mae ffordd bell i fynd. Dangosir ymrwymiad parhaus y Llywodraeth gan y mesurau a nodwyd gan y Canghellor yng Nghyllideb 2007 i gynyddu cefnogaeth ariannol i blant a rhieni sy'n gweithio. Bydd y rhain yn codi 200,000 o blant ychwanegol allan o dlodi.

Bydd dileu tlodi plant yn galw am weithredu ar draws ystod gyfan o feysydd polisi – y system dreth a budd-daliadau, cyflogaeth, addysg, iechyd, tai a llawer mwy. Bydd yn gofyn nid yn unig am ymdrechion gan y llywodraeth, ond am ymdrechion gan y gymdeithas sifil yn ei chyfanrwydd. Nid yw'r ddogfen hon yn nodi strategaeth gyffredinol y Llywodraeth ynghylch tlodi plant – nodwyd honno yn yr adolygiad o dlodi plant a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag Adolygiad Gwariant 2004. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar un elfen allweddol a chanolog yn y strategaeth honno – rôl cyflogaeth i rieni, a'r hyn y gall y Llywodraeth ei wneud i helpu rhieni, drwy eu hymdrechion eu hunain, i godi eu hunain a'u plant allan o dlodi.

Gwaith yw'r llwybr gorau allan o dlodi i'r rhan fwyaf o rieni a'u plant. Mae hyn yn wir nid yn unig am fod plant sy'n rhan o deuluoedd lle mae'r rhieni mewn gwaith yn llawer llai tebygol o fod yn dlawd o ran incwm, er bod hynny'n wir, wrth gwrs. Mae'n ymwneud hefyd â'r ffaith mai gwaith am gyflog sy'n cynnig y ffordd fwyaf cynaliadwy allan o dlodi ar gyfer y tymor hwy; am fod gwaith o les i iechyd corfforol a seicolegol rhieni ac, felly, eu plant; ac am fod plant sy'n cael eu magu mewn cartrefi di-waith eu hunain yn llawer yn fwy tebygol o fod yn dlawd pan fyddant yn oedolion.

Felly, mae cael mwy o rieni i fyd gwaith yn ganolog i leihau tlodi plant yn y tymor hwy. Cyflawnwyd llawer eisoes. Yn y DU y mae'r gyfradd gyflogaeth uchaf ymhlith gwledydd yr G8. Mae cyfuniad o bolisïau macroeconomaidd a marchnad lafur llwyddiannus, polisïau treth a budd-dal a dargedwyd i wella cymhelliannau gwaith heb gosbi'r rheiny sy'n cael budd-daliadau, ein buddsoddiad mewn gofal plant a pholisïau llwyddiannus o ran marchnad lafur fywiog – yn arbennig rhaglen y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol – wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Rhwng 1978 a 1992, cwympodd cyfradd gyflogaeth rhieni unigol o fwy na 6 phwynt canran i 40.7%, tueddiad cymdeithasol niweidiol ac, yn ôl pob golwg, un anorfod. Ond ers 1992, cynyddodd cyfradd gyflogaeth rhieni unigol o 16 o bwyntiau canran i 56.5% yn 2006. Erbyn hyn, mae mwy nag 1 filiwn o rieni unigol mewn gwaith.

Ond mae heriau mawr yn parhau:

- ein nod yw cyrraedd cyfradd gyflogaeth o 70 y cant i rieni unigol: er gwaethaf cynnydd sylweddol, mae ffordd bell i fynd o hyd;
- rhaid gwneud mwy i helpu rhieni unigol i gadw swyddi, a symud ymlaen mewn gwaith;
- er bod cyfraddau cyflogaeth i gyplau yn uchel yn gyffredinol, nid yw rhai grwpiau yn cael yr un budd â'i gilydd;
- i lawer o gartrefi, yn arbennig cyplau ag un yn ennill cyflog, nid yw cael swydd yn ddigon i'w codi allan o dlodi. Mae gan tua hanner y cartrefi tlawd o leiaf un rhiant mewn gwaith.

Felly, rhaid i ni wneud mwy. Ym mis Mai 2006, ymrwymodd yr Adran Gwaith a Phensiynau i adnewyddu ein strategaeth i sicrhau ein bod yn macsimeiddio ein cyfraniad at leihau a dileu tlodi plant. Ym mis Mehefin 2006, gwahoddasom Lisa Harker i gynnal adolygiad annibynnol o'n strategaeth. Cyhoeddwyd yr adolygiad ym mis Tachwedd 2006. Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddwyd adroddiad David Freud ynghylch rhaglenni lles yn ehangach.

Croesawn argymhellion Harker a Freud, ac mae'r papur strategaeth hwn yn nodi ein hymateb, a chynigion ar gyfer ymgynghori ymhellach yn eu cylch.

Os ydym ni i wneud cynnydd pellach o ran lleihau tlodi plant, rhaid i ni adeiladu ar ein llwyddiant hyd yn hyn – cynnal ac ehangu yr elfennau hynny o'n polisïau a fu'n llwyddiannus gan archwilio syniadau newydd a gwireddu datrysiadau newydd. Gyda'i gilydd, mae adroddiadau Harker a Freud yn awgrymu bod angen cymryd camau mewn tri phrif faes:

- adeiladu cefnogaeth trwy fwy o hawliau a chyfrifoldebau i rieni unigol;
- helpu pobl i aros mewn gwaith a mynd yn eu blaenau mewn cyflogaeth;
- datblygu canolbwynt teuluol yn ein gwaith â rhieni.

Adeiladu hawliau a chyfrifoldebau

Fel y sylwodd David Freud yn ei adroddiad diweddar, rydym yn llusgo y tu ôl i'r rhan fwyaf o wledydd eraill, yn arbennig y rheiny a chanddynt lefelau isel o dlodi plant fel Sweden a Denmarc, o ran yr hyn a ddisgwyliwn oddi wrth rieni unigol a'r help a chefnogaeth a roddwn iddynt i fynd yn ôl i'r farchnad lafur. O ganlyniad, mae'r gyfradd gyflogaeth i rieni unigol, er ei bod yn cynyddu, yn is na llawer o wledydd eraill o hyd.

Croesawn adolygiad David Freud a byddwn yn ystyried ei gynigion yn ystod y misoedd nesaf. O ran rhieni unigol, awgrymodd y ffordd ganlynol ymlaen:

"Felly, byddwn yn argymell, o 2008, i gyd-fynd yn fras â chreu'r LCC, fod y Llywodraeth yn lleihau'r pwynt y gall rhiant unigol hawlio cymhorthdal incwm o pan fydd ei blentyn yn 16 i 12."[1]

Rydym o'r farn mai dyma'r ffordd iawn i fynd, ac y dylem ystyried symud at Lwfans Ceisio Gwaith, gyda'r un hawliau ariannol sylfaenol, ond ffocws llawer mwy ar waith i'r rheiny sy'n gallu gweithio. Derbyniwn y byddai'n rhaid i rai symud ymlaen at fudd-dal priodol arall sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau gofal neu broblemau iechyd parhaus.

Cydnabyddwn hefyd y bydd rhoi'r gefnogaeth gywir ar waith i gefnogi trawsnewid a dychwelyd i'r gwaith yn hanfodol. Cyhoeddodd y Gyllideb estyniad ac, yn Llundain, ehangu ar y Credyd Mewn Gwaith llwyddiannus i rieni unigol, sy'n rhoi £40 yr wythnos yn ychwanegol i rieni unigol sy'n symud i fyd gwaith. Yn awr, bydd y swm hwn yn cynyddu i £60 yr wythnos yn Llundain. Hefyd, cynigiodd y Papur Gwyrdd Diwygio Lles gyflwyno Premiwm Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith gwerth £20 yr wythnos i rieni unigol a chanddynt blant hŷn sy'n cael cymhorthdal incwm ac sy'n paratoi i ddychwelyd i'r gwaith; mae'r egwyddor hon yn parhau'n ddeniadol, ond rhaid i ni ystyried y ffordd orau i'w strwythuro mewn cyd-destun lle byddai disgwyl i'r fath rieni unigol hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

Daw perthnasoedd i ben, ond ni cheir terfyn ar gyfrifoldebau. I deuluoedd lle bydd y berthynas rhwng y rhieni wedi chwalu, mae gan gynhaliaeth plant ran bwysig i'w chwarae wrth gadw plant allan o dlodi. Ar hyn o bryd, mae taliadau cynhaliaeth yn cadw tua 100,000 o blant allan o dlodi, ond mae'n bosibl y gallai llawer mwy o deuluoedd elwa. Byddwn yn rhoi system symlach ar waith a fydd yn annog ac yn helpu rhieni i wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cynhaliaeth plant ac a fydd yn blaenoriaethu anghenion plant, yn arbennig plant tlawd. O 2010-11, bydd y Llywodraeth yn cynyddu'n sylweddol faint o gynhaliaeth y gall pob rhiant â gofal sy'n cael budd-daliadau ei chadw cyn iddi effeithio ar lefel y budd-daliadau a dderbynnir ganddynt, gan roi mwy o arian ym mhocedi rhieni tlawd.

Helpu pobl i aros mewn gwaith a mynd yn eu blaenau ym maes cyflogaeth

Buom yn llwyddiannus iawn wrth gael pobl i mewn i waith ac efelychwyd ein cynigion dyfeisgar 'o fudd-dâl i waith' mewn mannau eraill yn y byd. Ond er bod gwaith yn parhau y ffordd fwyaf cynaliadwy o ddianc rhag tlodi, ni fydd helpu rhieni i gael swydd yn ddigon i'w codi nhw a'u plant allan o dlodi cymharol bob tro. Mae bron i hanner y plant tlawd yn byw mewn cartref lle mae o leiaf un person mewn gwaith eisoes.

Os ydym ni i ymdrin â thlodi mewn gwaith, mae'n bwysig iawn ein bod yn adeiladu ar ein llwyddiant o ran cael pobl i mewn i waith drwy eu helpu i aros mewn gwaith a mynd ymlaen yn eu swyddi. Mae lefel eu sgiliau yn benderfynydd allweddol o ran sefydlogrwydd profiad pobl o gyflogaeth a'r hyn y gallant ddisgwyl ei ennill. Mae hyn yn cynnwys sgiliau sylfaenol fel llythrennedd a rhifedd, sgiliau iaith a sgiliau generig fel cyfathrebu rhyngbersonol yn ogystal â chymwysterau ffurfiol.

Mae Adolygiad Sgiliau Leitch yn gosod fframwaith y gellir ymdrin â materion cynaliadwyedd a chynnydd yn y gwaith o'i fewn. Mae'r argymhellion yn cynnwys sgrinio ar gyfer anghenion sgiliau sylfaenol, help wrth ymdrin ag anghenion sgiliau i'r rheiny sydd mewn gwaith a'r rheiny sydd allan o waith, gwasanaeth gyrfaoedd newydd i oedolion ac amcan newydd i wasanaethau sgiliau a chyflogaeth sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth a symud ymlaen cynaliadwy. Byddwn yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn Nhrysorlys EM a'r Adran Addysg a Sgiliau, yn ogystal â'r Llywodraethau datganoledig i ystyried yr argymhellion a'r camau nesaf.

Mae prosiect Arddangosiad Cadw Cyflogaeth ac Ennill Dyrchafiad (CCED) yn cynnig cefnogaeth ymgynghorydd a chymhelliannau ariannol i weithwyr isel eu hincwm i aros mewn gwaith a dilyn hyfforddiant. Mae'r canlyniadau cynnar yn addawol; enillodd rhieni unigol ar CCED fwy na rhieni unigol eraill, yn rhannol am fod y gefnogaeth ariannol yn eu hannog i symud o waith rhan amser i waith amser llawn; ac roedd y rheiny a oedd yn cymryd rhan yn rhaglen CCED yn fwy tebygol o ddilyn hyfforddiant mewn gwaith a'r tu allan i'r gwaith fel ei gilydd.

Mae'r gwerthuso arno ar y gweill o hyd, a bydd yn cynnig gwersi gwerthfawr i ni ynghylch sut y gallwn gynnal cyflogaeth a helpu'r rheiny â chynnydd is o ran sgiliau a chodi eu teuluoedd allan o dlodi.

Ffocws mwy teuluol yn ein cefnogaeth O Fudd-dâl i Waith i rieni

Dywedodd adroddiad Lisa Harker y dylai ein rhaglenni O Fudd-dâl i Waith ganolbwyntio mwy ar anghenion cyplau a theuluoedd rhiant unigol . Cytunwn â hyn, ac rydym am ail-ganolbwyntio sylw'r Ganolfan Byd Gwaith ar gyflogaeth rhieni a thlodi. Byddwn yn edrych ar y mesurau canlynol:

- rydym am estyn y gefnogaeth sydd ar gael o dan y Fargen Newydd a Mwy i Rieni Unigol i bob cwpl a rhiant unigol sydd ar fudd-daliadau yn Llundain;

- rydym am ddiwygio ein hymyriadau i bartneriaid cwsmeriaid budd-daliadau, o bosibl drwy edrych ar y ffordd orau y gall cyplau, gyda'i gilydd, fodloni ein gofyniad fod o leiaf un ohonynt wrthi'n weithredol yn ceisio am waith;

- er bod gennym bolisïau llwyddiannus ar gyfer symud cwsmeriaid budd-daliadau i mewn i waith, nid yw partneriaid y rhai mewn gwaith yn gleientiaid yr Adran ac, ar hyn o bryd, nid ydynt yn cael unrhyw gyngor neu gefnogaeth yn awtomatig os byddant yn dymuno gweithio. Gwyddom fod llawer o'r ail enillwyr cyflog posibl hyn yn dymuno gweithio, er bod llawer ohonynt yn wynebu rhwystrau sylweddol rhag cyflogaeth. Cychwynnodd y cynllun peilot Allgymorth Partneriaid i ail enillwyr cyflog mewn chwe dinas ym mis Chwefror 2007, a bydd yn caniatáu i ni adeiladu ein sylfaen dystiolaeth ynghylch y ffordd orau y gallwn ymgysylltu â'r grŵp hwn a'i gefnogi;

- rhaid i ni gysylltu'r ehangu pwysig yn y ddarpariaeth gofal plant gyda'n rhaglenni cyflogaeth. Cyfeiriodd adroddiad Lisa Harker at y ffaith nad oedd Canolfannau Byd Gwaith a Chanolfannau Plant yn cydweithio'n agos bob tro. Felly, rhaid i ni sicrhau bod gofal plant yn bodloni anghenion rhieni sy'n ceisio symud o fudd-dâl i'r gwaith. Bydd Awdurdodau Lleol yn gweithio'n agos â'r Ganolfan Byd Gwaith i sicrhau ein bod yn casglu'r wybodaeth angenrheidiol ynglŷn ag anghenion gofal plant ein cleientiaid. Yn y dyfodol, gofynnir i bob rhiant, ac nid rhieni unigol yn unig, sydd ar raglenni budd-dâl i waith ynglŷn â'u hanghenion gofal plant. Yn amodol ar ganlyniadau gwerthuso, byddwn hefyd yn ystyried estyn y cynnig o sesiynau blasu gofal plant i bob rhiant;

- mae plant o rai lleiafrifoedd ethnig – yn arbennig rhai o gefndir Pacistanaidd neu Fangladeshaidd – yn wynebu risg llawer uwch o gael eu magu mewn tlodi; mae llawer ohonynt hefyd yn wynebu rhwystrau llawer mwy ymwreiddiedig o ran cyfranogi yn y farchnad lafur. Cychwynnodd y cynllun peilot Allgymorth Partneriaid i ail enillwyr cyflog mewn chwe dinas yn gynnar yn 2007. Partneriaid Bangladeshaidd a Phacistanaidd pobl mewn gwaith ac isel eu hincwm yw'r prif grŵp targed. Mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn cael help â chwilio am waith, dod o hyd i ofal plant addas ac ymdrin â rhwystrau o ran iaith a sgiliau. Bydd y cynllun peilot yn ychwanegu at ein gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio ar gyfer y grŵp hwn. Yn ogystal cyhoeddwyd yng Nghyllideb 2007 y ceid cyllid ychwanegol i hyfforddi Saesneg fel Ail Iaith yn y gwaith yn Nwyrain a Gorllewin Llundain; a

- byddwn yn diwygio strwythur targedau'r Ganolfan Byd Gwaith i roi ffocws a chymhelliant eglurach i staff y Ganolfan Byd Gwaith ganolbwyntio ar helpu pobl a chanddynt blant

Wrth gwrs, mae hyn oll yn digwydd yn erbyn cefndir ehangach ein diwygiadau i'r system les. Nododd y Papur Gwyrdd Diwygio Lles *Bargen newydd ar gyfer lles: Galluogi pobl i weithio* ein cynigion ar gyfer cyflawni cyfradd gyflogaeth o 80 y cant i bobl o oedran gwaith. Bydd cyrraedd y nod hwn yn chwarae rhan allweddol mewn lleihau tlodi plant.

Rydym o'r farn y bydd y mesurau a nodir yn y ddogfen hon yn ein cynorthwyo i adeiladu ar y llwyddiant a gafwyd eisoes wrth helpu rhieni i gael gwaith, ac wrth godi eu plant allan o dlodi. Ond nid yw hon yn dasg i'r Llywodraeth yn unig. Rhaid i ni weithio mewn partneriaeth â rhieni, awdurdodau lleol, y sector preifat a'r sector gwirfoddol a'r gymdeithas sifil yn ehangach. Gwelwn hon fel strategaeth ac nid glasbrint ar gyfer gwireddu.

Bargen Newydd i Deuluoedd

Crynodeb o fesurau newydd i hyrwyddo cyflogaeth i rieni a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2007 ac yn y strategaeth hon

Mae'r Fargen Newydd a Mwy i Rieni Unigol (BNRhU+) yn becyn cymorth arloesol ac integredig i rieni unigol. Ein bwriad yw:

- estyn y Fargen Newydd a Mwy i Rieni Unigol tan fis Mawrth 2011;
- estyn y Fargen Newydd a Mwy i Rieni Unigol i gynnwys pob rhiant unigol yn Llundain;
- estyn elfennau allweddol y Fargen Newydd a Mwy i Rieni Unigol, gan gynnwys cymorth ymgynghorydd i bob rhiant cwpl sy'n cael budd-daliadau yn ardaloedd y cynllun peilot presennol a ledled Llundain.

Mae'r Credyd Mewn Gwaith i Rieni Unigol yn cynnig £40 yn ychwanegol bob wythnos i rieni unigol sy'n symud i mewn i waith yn 40 y cant o'r wlad, gan gynnwys Llundain gyfan bron. Ein bwriad yw:

- estyn Credyd Mewn Gwaith tan fis Mehefin 2008;
- cynyddu'r gyfradd sy'n daladwy yn Llundain i £60;
- cynnal cynllun peilot ar gysylltu'r credyd â chymorth ymgynghorydd, hyrwyddo cadw gwaith i rieni unigol, ar sail model Cyflogaeth, Cadw a Datblygu Gyrfa llwyddiannus.

Byddwn yn cynnig cyngor a chefnogaeth i bartneriaid rhieni sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, trwy gyflwyno cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith i'r grŵp hwn bob chwe mis.

Yn Llundain, byddwn hefyd yn cynnig y gefnogaeth ychwanegol ganlynol:

- cymorth ariannol ar gyfer costau gofal plant ymlaen llaw yn Llundain;
- estyn yn helaeth y ddarpariaeth Saesneg fel Ail Iaith yn y gwaith, a gyflwynir trwy gynllun peilot strategaeth y dinasoedd yn Nwyrain a Gorllewin Llundain.

Darparodd Cyllideb 2007 hefyd am ddarpariaeth gofal plant uwch i ganiatáu i fwy o deuluoedd gael mynediad at ofal plant o ansawdd uchel, gyda 50,000 o leoedd ychwanegol yn cael eu cyhoeddi.